Independent Panel on Members' Pay and Allowances
Y Panel Annibynnol ar Gymorth Ariannol i Aelodau'r Cynulliad

Chris Reading
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Ffon / Tel: 029 2082 1813
E-bost / E-mail:
chris.reading@wales.gsi.gov.uk

30 Hydref 2008

Annwyl Syr/Madam,

Galwad am Dystiolaeth

Mae Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol wedi penodi panel annibynnol i gynnal adolygiad ar y cymorth ariannol a ddarperir i Aelodau'r Cynulliad. Eisoes cafwyd argymhelliad gan banel blaenorol, oedd yn canolbwyntio ar y lefel priodol o ran taliadau i Aelodau'r Cynulliad, gan gofio eu cyfrifoldebau ychwanegol a ddaeth yn sgîl Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Bwriad y Panel hwn yw sicrhau bod y system gyflogau a lwfansau'n deg, yn dryloyw a'i bod yn cydnabod sgiliau Aelodau'r Cynulliad ac yn eu gwobrwyo am eu sgiliau ac yn darparu gwerth am arian ar yr un pryd.

Cadeirydd y Panel yw Syr Roger Jones, Dirprwy-Ganghellor Prifysgol Abertawe. Yr aelodau eraill yw'r Gwir Anrh. Dafydd Wigley, Nigel Rudd (cyn Brif Weithredwr, Cynulliad Rhanbarthol Dwyrain Canolbarth Lloegr) a Jackie Nickson, (Rheolwr Adnoddau Dynol, Opagus Group Ltd).

Mae Syr Roger a'i gyd-aelodau ar y Panel yn awyddus iawn i glywed barn pobl Cymru – fel unigolion ac fel sefydliadau. Felly, os oes gennych unrhyw sylwadau ar y cymorth ariannol a dderbynia ein Haelodau (er enghraifft barn am eu cyflogau, eu treuliau, eu horiau gwaith, teithio, amodau gwaith, hyfforddiant neu'n wir unrhyw faes yr ystyriwch yn berthnasol) neu syniadau adeiladol ynglŷn â'r cymorth hwn, dyma'ch cyfle i'w cyflwyno'n ysgrifenedig, i mi yn y cyfeiriad ar frig y ddalen neu trwy'r e-bost: chris.reading@wales.gsi.gov.uk

Efallai bod gennych gydweithwyr a fyddai â diddordeb mewn cyfrannu at yr ymchwiliad hwn neu'ch bod yn gwybod am sefydliadau eraill a hoffai wneud hynny, gallwch felly ddangos y llythyr hwn iddynt, neu roi gwybod i mi am eu manylion cysylltu.

Ar ran y Panel, edrychaf ymlaen at dderbyn eich safbwyntiau – erbyn 31 Ionawr os yn bosibl. Croesawn ymatebion yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cofion,

Chris Reading
Clerc, y Panel Annibynnol ar Gymorth Ariannol i Aelodau'r Cynulliad

Datgelu gwybodaeth

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i ymchwiliad. O ganlyniad gall eich ymateb ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol i adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi unrhyw wybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Ond, os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu. Gall hyn gynnwys gwybodaeth sydd yn y gorffennol wedi'i dileu gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os ydych yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, dylech nodi'n glir pa rannau na ddylid eu datgelu, ynghyd â'ch rhesymau dros atal y deunydd dan sylw. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.